CYFRES C1

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o lyfr Daniel

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Daniel 1: 1-7
2: 1-19
a 2: 24-49

ADNOD ALLWEDDOL
Daniel 2: 28

Astudiaeth 1 Daniel - Gwasanaethu Duw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Genesis 41 Jeremeia 25 1-11

Ar ddechrau stori Daniel, mae brenin Babilon yn ymosod ar wlad Daniel, sef Jwda, ac mae Daniel yn cael ei ddal. Roedd proffwydi wedi dweud y byddai Jwda'n cael ei goresgyn. Cosb gan Dduw oedd hyn am fod ei bobl yn anufudd iddo.

C **Darllenwch Jeremeia 25: 1, 2 ac 8 – 11, ac atebwch y cwestiynau a ganlyn:**

C **Pwy oedd y proffwyd y sonnir amdano yma?**

C **Am faint o amser fyddai pobl Jwda yn gwasanaethu Babilon?**

1

C **Edrychwch ar y Darlleniadau o'r Beibl a llenwi'r Ffeil Ffeithiau sy'n sôn am gipio Jwda.**



Ffeil	Ffeithiau
Brenin Jwda	Brenin Babilon
Ym mha flwyddyn o'i deyrnasiad y digwyddodd yr ymosodiad?	Pa ddinas ymosododd ef arni? .....

2

Roedd Daniel a thri dyn ifanc arall ymhlith y rhai a gafodd eu cymryd i gael eu hyfforddi i wasanaethu'r brenin dieithr. Yn ogystal â chael eu symud i wlad newydd ddieithr a dysgu iaith newydd, rhoddwyd enwau newydd iddyn nhw fel eu bod yn colli'r holl nodweddion oedd yn perthyn iddynt cynt.

C **Rhowch lythyren gyntaf enwau newydd y dynion yn y blwch ger eu hen enw.**

2

A – Abednego	B - Sadrach	C – Mesach	D – Beltesassar
Misael	Daniel	Asareia	Hananeia

C **Ysgrifennwch bedwar o'r nodweddion yr oedd y Babiloniaid yn chwilio amdanyn nhw yn y dynion ifanc fyddai'n cael eu dewis i gael hyfforddiant arbennig.**

1	2
3	4

2

Un noson, roedd Nebuchadnesar yn methu cysgu am iddo gael breuddwyd ryfedd.

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-**

Roedd y brenin wedi dweud wrth y dynion doeth beth oedd ei freuddwyd. .....
Roedd y dynion doeth yn gallu dweud beth oedd ystyr y freuddwyd.. .....
Rhoddodd y brenin orchymyn i ladd y dynion doeth i gyd.
(Yn cynnwys Daniel a'i ffrindiau). .....
Gofynnodd Daniel a'i ffrindiau am help Duw. .....

2

GRID GEIRIAU

Cliwiau i Lawr
Atebwch y cwestiynau sy'n mynd i lawr trwy'r gair BREUDDWYD.

1. Pwy gafodd y freuddwyd?
2. Pwy oedd Nebuchadnesar?
3. Rhai o'r bobl oedd yn methu dweud beth oedd ystyr y freuddwyd.Y C _ _ _ _ _ _ _
4. Dywedodd y Caldeaid mai dim ond y _ _ _ _ _ _ oedd yn gwybod ystyr y freuddwyd.
5. Roedd y brenin eisiau __ _ __ doethion Babilon a Daniel a'i ffrindiau.
6. Cafodd Daniel wybod ystyr y freuddwyd mewn _ _ _ _ _ _ _ _ _ __ yn y nos.
7. Ar ôl cael gwybod ystyr y freuddwyd, plygodd y brenin i lawr ac _ _ _ _ _ _ i Daniel (adnod 46)
8. Rhoddodd y brenin anrhegion ac anrhydedd i _ _ _ _ _ _ a'i gyfeillion.



8

Roedd Daniel yn gallu dweud beth oedd ystyr breuddwyd y brenin am fod Duw wedi'i helpu (darllenwch yr Adnod Allweddol).

C **Ysgrifennwch ger pob rhif o beth roedd pob rhan o'r ddelw wedi'i wneud.**

1	4 .....
2	5 .....
3	6 .....



Er eu bod mewn gwlad ddieithr lle roedd y bobl yn addoli duwiau ffug, a'u bod wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd, roedd y pedwar ffrind yn parhau i ofyn am help Duw yn eu bywyd bob dydd. Dylen ninnau ofyn am help Duw hefyd. Pan fyddwn ni'n cael problemau, dylen ni weddïo am fod yn ddigon cryf a dewr i ddweud "Na" pan gawn ein temtio i wneud pethau drwg ac "Ie" pan gawn gyfle i wneud pethau da. Gallwn fod yn siŵr y bydd Duw yno i'n helpu ni, fel Ffrind, pan fydd arnom ei angen.

3

Enw _____

DARLLENWCH
Daniel 3: 1-30

ADNOD ALLWEDDOL
Daniel 3: 17

Astudiaeth 2 Daniel – Sefyll dros Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Exodus 20: 1-6 Actau 5: 27-32

Ar ôl breuddwydio am ddelw, penderfynodd Nebuchadnesar wneud un. Roedd rhaid i'r holl bobl blygu lawr ac addoli'r ddelw pan glywent gerddoriaeth. Gwrthododd ffrindiau Daniel wneud hyn.

C **Atebwch y cwestiynau isod ac yna ffitio'ch atebion yn y Grid. Dim ond UN ateb posib sydd yna. (Awgrym: Dechreuwch â'r gair hiraf a'r gair byrraf). Mae'r rhif yn y cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn yn dangos faint o lythrennau sydd yn y gair.**

GRID GEIRIAU

O beth y gwnaed y ddelw? (3)
Roedd tri Iddew yn gwrthod _ ___ _ _ _ y ddelw. (5)
Enw un o'r offerynnau a ddefnyddiwyd. (4)
Os nad oeddent yn addoli'r ddelw byddent yn cael eu taflu i'r ___ _ _ _ _ _ _ (7)
Beth oedd enw'r tri ffrind nad oedd yn fodlon addoli neb ond y gwir Dduw? (6, 5, 8)
Daeth y tri ffrind allan o'r _ _ _ yn fyw. (3)



8

Roedd y brenin mewn tymer wyllt pan glywodd nad oeddent wedi gwrando ar ei orchymyn.

C **Pan ddaethpwyd â'r tri at y brenin a'u holi, beth oedd eu hateb? Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i ateb y cwestiwn.**



I

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym nad oedden nhw'n fodlon addoli'r ddelw aur?** ☐

I

Roedd tri ffrind Daniel yn barod i dalu'r pris am fod yn ffyddlon i Dduw. Byddai'n well ganddynt farw na bod yn anufudd i Dduw! Roedden nhw'n credu y gallai eu Duw eu hachub ac nid oedd ofn arnynt ddweud wrth y brenin bod ganddynt ffydd yn Nuw! Hyd yn oed i ni, heddiw, dydi hi ddim yn hawdd bod yn Gristion. Weithiau, gall olygu sefyll yn erbyn y llif. Os ydyn ni'n caru Iesu, ein Gwaredwr, byddwn eisiau ufuddhau iddo beth bynnag yw'r gost. Pan fydd hynny'n anodd, dylem gofio faint oedd y gost iddo ef pan fuodd farw ar y groes drosom ni.

C **Beth oedd y ddau beth yr oedd Sadrach, Mesach ac Abednego yn gwrthod eu gwneud?**

1

1	2

C **Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau isod yn y blychau yn ymyl y fflamau. Rhif yw pob ateb.**

1. Sawl cyfle roddodd y brenin iddyn nhw i syrthio ac addoli'r ddelw?

2. Sawl gwaith poethach nag arfer cafodd y ffwrnais ei thwymo?

3. Sawl dyn a daflwyd i'r ffwrnais?

4. Pan edrychodd y brenin i'r ffwrnais, sawl dyn oedd i'w gweld yno?

2

C **Dywedodd Nebuchadnesar mai gweision y _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ oedden nhw.**

1

C **Pa dri pheth y sylwodd y bobl arnynt pan ddaeth y tri ffrind allan o'r ffwrnais?**

1	2
3	

1

C **Darllenwch adnodau 28–30 ac ysgrifennu geiriau addas yn y paragraff i weld beth wnaeth y brenin nesaf.**

Dywedodd "_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ yw Duw Sadrach, Mesach ac Abednego". Dywedodd fod Duw wedi anfon angel i _ _ _ _ _ y ffrindiau o'r ffwrnais. Roedd y ffrindiau wedi _ _ _ _ _ _ _ _ yn Nuw. Dywedodd y brenin na ddylai neb _ _ _ _ _ Duw Sadrach, Mesach ac Abednego. Gwnaeth y brenin sicrhau eu bod yn cael llwyddiant yn nhalaith _ _ _ _ _ _ _.

3

C **Soniwch yn fyr, yn eich geiriau eich hunan, am rai o'r gwersi pwysig yr ydym wedi dysgu o'r bennod hon yn llyfr Daniel.**

2

Enw _____

DARLLENWCH
Daniel 5: 1-31

ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 5: 23

Astudiaeth 3 Daniel - Siarad dros Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Job 33: 14-30 Eseia 57:15 2 Timotheus 1:8

Erbyn hyn, mae blynyddoedd wedi mynd heibio. Nid Nebuchadnesar yw'r brenin yn awr, ond Belsassar. Gwaetha'r modd, nid oedd y brenin Belsassar wedi dysgu o gamgymeriadau Nebuchadnesar ond roedd yntau hefyd yn ddyn balch ac annymunol.

C **Faint o'i dywysogion gafodd wahoddiad i wledd Belsassar?** _____ [1]

C **Disgrifiwch, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, beth wnaeth y brenin yn y wledd.**

_____

_____

_____ [2]

Yn ystod y wledd, ymddangosodd bysedd llaw dyn ac ysgrifennu ar blastr y wal ym mhalas y brenin..



C **Ysgrifennwch chi 'ar y wal' beth oedd y llaw wedi'i ysgrifennu ar wal y palas.** [1]

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym fod y brenin yn ofnus iawn pan welodd y llaw yn ysgrifennu?**

_____ [1]

C **Ticiwch y blychau i ddangos beth y dywedodd y brenin y byddai'n ei roi i rywun a allai esbonio'r neges.** [1]

- ☐ Dillad o liain gwyn
- ☐ Ei ferch yn wraig iddo
- ☐ Cadwyn aur
- ☐ Sachau o arian
- ☐ Llywodraethu'n drydydd yn y deyrnas

C **Pwy soniodd wrth y brenin am Daniel?**

_____ [1]

C **Beth ddywedodd y person hwnnw am Daniel?**



[2]

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r frawddeg yn gywir neu'n anghywir ac ysgrifennwch rif yr adnod i brofi'ch ateb.**

Roedd Belsassar wedi clywed bod Daniel yn

"llawn o ysbryd y duwiau sanctaidd".	.....	Adnod.....
Dywedodd Daniel wrth y brenin nad oedd eisiau anrhegion	.....	Adnod.....
Duw oedd wedi rhoi ei frenhiniaeth i Nebuchadnesar	.....	Adnod.....
Pan aeth yn falch, bu'n rhaid iddo roi'r gorau i fod yn frenin.	.....	Adnod.....
Duw a anfonodd y llaw a ysgrifennodd ar y wal.	.....	Adnod.....

5

C **Beth nad oedd Belsassar wedi'i wneud er ei fod yn gwybod beth ddigwyddodd i Nebuchadnesar?**

1

C **Ysgrifennwch ran olaf yr Adnod Allweddol.**

2

C **Tynnwch linell rhwng y tri gair a'r frawddeg sy'n dweud beth maen nhw'n ei olygu.**

MENE (Rhif)	Pwyswyd di yn y glorian a'th gael yn brin.
TEKEL(Pwysau)	Rhannwyd dy deyrnas a'i rhoi i'r Mediaid a'r Persiaid.
PERES (Rhannu)	Rhifodd Duw flynyddoedd dy deyrnasiad a daeth ag ef i ben.

1



Weithiau, dydi hi ddim yn hawdd siarad â phobl eraill am Iesu, yn enwedig pan fydd eisiau dweud newyddion drwg yn ogystal â newyddion da. Ond mae'n rhaid i ni fod yn ffyddlon ac atgoffa pobl bod Duw yn barnu drygioni.

C **Llanwch y Ffeil Ffeithiau i ddweud beth a ddigwyddodd i'r Brenin Belsassar.**



2

Dydi Duw ddim yn hoffi pobl sy'n meddwl eu bod nhw'n bwysig ond mae'n croesawu pobl sy'n dod ato yn onest, gan gofio pwy yw Duw. Dylem ni geisio plesio Duw bob amser.

Enw _____

DARLLENWCH
Daniel 6: 1-28

ADNOD
ALLWEDDOL
Daniel 6: 23

Astudiaeth 4 Daniel - Dioddef dros Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Cymharwch â hanes Joseff yn y carchar – Genesis 39 a 40

Erbyn hyn, roedd brenin newydd ar y wlad. Pwy bynnag oedd yn rheoli - y Babiloniaid neu'r Mediaid a'r Persiaid - roedd Daniel yn was da iddynt ac yn gweithio'n galed. Hefyd, roedd yn ffyddlon i Dduw ac roedd Duw'n ffyddlon iddo ef.

DRYSFA EIRIAU

Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau isod a rhoi cylch o'u cwmpas yn y Ddrysfa Eiriau.

Sawl rhaglaw oedd yna? (Adnod 2)

Enw'r brenin.

Ni allai'r lleill gael achos na _ _ _ yn erbyn Daniel. (Adnod 4)

Roeddent eisiau i'r brenin wneud _ _ __ _ newydd fel na châi neb addoli Duw. (Adnod 7)

Neu byddent yn cael eu taflu i ffau'r __ _ _ _ _.

A arwyddodd y brenin y ddeddf? _ _ .

Beth oedd ar agor gan Daniel?

Sawl gwaith bob dydd oedd Daniel yn gweddïo?
_ _ _ _.

Pa ddinas oedd e'n ei hwynebu wrth weddïo?
_ _ _ _ _ _ _ _ _.

→	A	D	A	DD	I	W	T	M
D	D	O	W	E	LL	↑	A	E
FF	E	N	E	S	T	R	I	L
↑	N	N	D	O	O	U	R	A
DD	D	A	R	E	I	U	S	S
E	I	↑	↓	E	↓	↑	F	W
B	A	I	L	↑	A	↑	DD	R
O	↓	Y	I	R	T	DD	E	E
R	E	L	I	W	R	↑	D	J

↑ dechrau yma

5

C **Nawr, dilynwch gyfeiriad y saethau, i fyny ac i lawr, o'r chwith i'r dde yn y Ddrysfa Eiriau ac ysgrifennu'r llythrennau sydd ar ôl, heb gylch o'u cwmpas, i weld beth y parhaodd Daniel i'w wneud er gwaetha'r ddeddf newydd.**

1

C **Beth oedd ymateb y brenin pan glywodd fod Daniel yn cael ei gyhuddo o dorri'r ddeddf newydd? Beth wnaeth e?**

2

C **Beth ddywedodd y brenin wrth Daniel cyn ei daflu i ffau'r llewod?**

2

C **Rhowch y geiriau hyn yn y llefydd iawn.**

ffau seliodd maen bore balas brenin sêl noson

Rhoddwyd _____ ar draws geg y _____ a _____ y _____ hi â'i ____ ei hunan. Yna aeth i'w _____ a threuliodd y _____ yn ymprydio. Yn y ____ cododd yn gynnar iawn a mynd ar frys i weld Daniel.

4



C **Yn ôl Dareius, gwas pwy oedd Daniel?**

1

C **Pa air sy'n dweud wrthym faint o'r amser roedd Daniel yn gwasanaethu Duw?**

1

C **Darllenwch yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch y rhan sy'n dweud pam na chafodd Daniel niwed.**

1

C **Trwy gymharu Daniel, Pennod 3 (Ffrindiau Daniel yn y Ffwrnais o Dân Poeth) â Daniel, Pennod 6 (Daniel yn Ffau'r Llewod), ysgrifennwch ddwy ffaith bwysig sy'n wir am y ddwy sefyllfa.**

2

C **Darllenwch Daniel 2:48, 49; 3:30; 6:28 ac YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, ysgrifennwch UN PETH a ddigwyddodd oherwydd bod Daniel a'i ffrindiau yn rhoi Duw gyntaf yn eu bywydau.**

1

Yn y digwyddiadau hyn, rydyn ni'n gweld bod Duw yn anrhydeddu pobl sy'n ei anrhydeddu ef. Ydych chi'n rhoi Duw yn gyntaf yn eich bywyd chi? Ydych chi wedi caniatáu i Iesu ddod yn Arglwydd ac yn Waredwr i chi trwy ymddiried ynddo? Fel Cristion, ydi e'n cael y lle pwysicaf yn eich bywyd? Pan fyddwn ni'n rhoi amser i ddarllen y Beibl, gweddïo a mynd i'r capel neu'r eglwys, bydd Duw yn ein bendithio. Cofiwch ei bod yn rhaid ufuddhau i Air Duw.
Fel Daniel a'i ffrindiau, dylen ni ddweud:-

DUW SY'N DOD GYNTAF

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120